# CYNGOR SIR Y FFLINT

# A5026 A BRON HAUL, BAGILLT

# GWAHARDDIAD ARFAETHEDIG AR AROS AR UNRHYW ADEG

<u>Datganiad o'r Rhesymau dros argymell gwneud y Gorchymyn</u>

Mae Cyngor Sir y Fflint yn bwriadu cyflwyno gwaharddiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg (llinellau melyn dwbl) ar y ffordd uchod.

Bwriad y cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg yw mynd i'r afael â pharcio annetholus, cynnal gwelededd a sicrhau nad gyffyrdd, yw'r troedffyrdd a'r mannau croesi yn cael eu rhwystro gan gerbydau sydd wedi parcio.

Mae parcio ar gyffyrdd, boed llinellau melyn yno neu beidio, yn drosedd ac mae'r cyfyngiadau hyn yn rhwystr gweledol i atgyfnerthu'r neges hon. Ar hyn o bryd, pe bai cerbydau'n parcio o fewn 10 metr i gyffordd, gallai hynny gael ei ystyried yn drosedd ac felly byddai'n destun camau gorfodi gan Heddlu Gogledd Cymru. At hynny, mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi na ddylai cerbydau barcio ger neu ar gyffordd oherwydd gallen nhw achosi rhwystr a pheryglu diogelwch defnyddwyr y ffordd.

Bydd Cyflwyno'r gwaharddiad arfaethedig i aros ar unrhyw adeg yn gwella diogelwch cerddwyr a holl ddefnyddwyr y ffordd drwy gael gwared ar gerbydau wedi'u parcio mewn lleoliadau allweddol a gwella llif y traffig o amgylch Ysgol Glan Aber.

Prif bryder yr Awdurdodau yw diogelwch a lles y cyhoedd, yn cynnwys Plant sy'n mynd a dod o'r Ysgol. Drwy ddarparu amgylchedd diogel i gerddwyr, mae hyn yn lleihau'r perygl y bydd damweiniau'n digwydd rhwng defnyddwyr diamddiffyn a cherbydau modur a bydd yn annog mwy o ddisgyblion i gerdded neu feicio i Ysgolion yn yr ardal.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau ar gyfer defnyddwyr ffordd diamddiffyn ynghyd â gwella amwynder yr ardal.

**Manylir ar y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn arfaethedig**



Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug, CH7 6NF
Sir y Fflint.
Dydd Gwener 13 Ionawr 2023.